OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1335 (Cy.128)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwyso Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006

Wedi'u gwneud - -	*16 Mai 2006*
Yn dod i rym - -	*1 Awst 2006*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 112 a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwyso Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006 a deuant i rym ar 1 Awst 2006.

(2) Maent yn gymwys i ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "ACCAC" ("*ACCAC*") yw Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru neu'r Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales(**2**);

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002;

ystyr "NQF" ("*NQF*") yw'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol sy'n cynnwys cymwysterau a achredir ar y cyd gan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n arfer swyddogaethau a freiniwyd gynt yn ACCAC a'r awdurdodau rheoleiddio cyfatebol ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon(**3**), ac ystyr "lefel" ("*level*") yw'r lefel yr achredir cymhwyster ati o fewn yr NQF;

(**1**) 2002 p.32. ystyr 'Regulations' (o ran Cymru) yw rheoliadau sy'n cael eu gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol; gweler adran 212(1).

(**2**) *Gweler* adran 27 o Ddeddf Addysg 1997, p.44. *Gweler*O.S. 2005/3239 ynghylch diddymu ACCAC a throsglwyddo ei swyddogaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(**3**) *Gweler*O.S. 2005/3239 ynghylch diddymu ACCAC a throsglwyddo ei swyddogaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol. Yr awdurdodau cyfatebol yw Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (Lloegr) a'r Cyngor dros Gwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (Gogledd Iwerddon). Rhestrir y cymwysterau yn ôl categori a lefel. Gellir gweld y Fframwaith ar www.qca.org.uk.